



# Paratoi am ddyfodol gwahanol: adroddiad y sesiwn dylanwadu ar bolisi

## Y CYD-DESTUN

Drwy gydol Mai a Mehefin 2020 bu CGGC yn hwyluso rhaglen o fforymau trafod ar-lein i ennill dealltwriaeth o'r problemau sy'n wynebu'r sector gwirfoddol yng Nghymru o ganlyniad i COVID-19, y gwahanol bosibiliadau ar gyfer y dyfodol a sut orau y gallwn baratoi ar eu cyfer; drwy weithio tuag at y canlyniadau y byddai'r sector yn dymuno eu gweld yn y dyfodol. Mae hyn yn adeiladu ar y [dysgu cychwynnol](#) a gyhoeddwyd gan CGGC ym mis Mai 2020.

Cynhaliwyd cyfres o chwe sesiwn, pob un yn canolbwyntio ar wahanol bwnc, ochr yn ochr â holiadur ehangach. Hyrwyddwyd y sesiynau hyn, oedd yn ddi-dâl, ymhlith holl aelodaeth CGGC.

Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar bedwar cwestiwn allweddol:

- Pa effaith y mae Covid-19 wedi'i gael?
- Sut y gallai hyn arwain at newid hirdymor – cadarnhaol a negyddol?
- Beth yw'r goblygiadau i'r sector gwirfoddol yng Nghymru?
- Beth all mudiadau gwirfoddol, CGGC, y llywodraeth, neu wneuthurwyr penderfyniadau eraill, ei wneud i'n tywys tuag at ddyfodol gwell?

Paratowyd adroddiad cryno gan gwmni [Richard Newton Consulting](#) ynghyd ag adroddiad terfynol yn cyfuno'r holl themâu a'r gweithredu allweddol. Bwriedir rhannu'r rhain ar draws y sector, a hefyd gydag eraill fel cyllidwyr a gwneuthurwyr polisi.

Diben yr adroddiadau hyn yw sefydlu themâu a champau gweithredu'n hytrach na chreu crynodeb o'r trafodaethau. Maen nhw'n adlewyrchu'r ymateb i'r arolwg a'r cyfraniadau yn y sesiynau'n hytrach na safiad CGGC neu Richard Newton Consulting. Ni allwn gadarnhau a ydyn nhw'n gwbl gywir neu'n ddim ond argraffiadau pobl.

Ar 4 Mehefin 2020 cynhaliwyd y pedwerydd fforwm trafod i ystyried sut yr effeithiodd argyfwng Covid-19 ar allu'r sector gwirfoddol i ddylanwadu ar bolisi.

Cofrestrodd dros 106 o fudiadau i fynychu'r sesiwn gan gynrychioli amrediad o fudiadau o'r sector di-wneud-elw. Roeddent yn cynnwys elusennau cofrestredig a chwmnïau buddiannau cymunedol ynghyd â mudiadau cymorth yn cynnwys CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac awdurdodau lleol.

## **DYLANWADU AR BOLISI – PA EFFAITH Y MAE COVID-19 WEDI'I GAEL?**

Mae i ba raddau y mae mudiadau gwirfoddol yn ceisio dylanwadu ar bolisi'n amrywio. Mae rhai mudiadau'n bodoli'n llwyr fel cyrff ymgyrchu neu lobio. Mae cyrff darparu gwasanaeth yn fudiadau sydd hefyd yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau dylanwadu; fodd bynnag, mae llawer o fudiadau'n dewis peidio â chyfrannu'n ffurfiol at weithgareddau dylanwadu gan adael hyn yn nwylo cyrff seilwaith. Fel gydag elfennau eraill a fu'n destun trafod yn y digwyddiadau Dyfodol Gwahanol, mae'r sefyllfa wedi newid dros gyfnod y pandemig ac yn debygol o barhau i newid wrth i'r argyfwng barhau.

Mae argyfwng Covid-19 wedi effeithio ar allu'r sector gwirfoddol i ddylanwadu ar bolisi.

- Effeithiwyd ar fynediad at wneuthurwyr polisi, ond mae'r effaith yn amwys – gyda mynediad wedi cynyddu mewn rhai ffyrdd a lleihau mewn eraill.

- Roedd rhai mudiadau wedi cael mwy o fynediad at weinidogion y llywodraeth ar lefel wleidyddol, wrth iddynt chwilio am atebion; roedd mudiadau lleol hefyd wedi cael mwy o fynediad at Aelodau o'r Senedd; fodd bynnag, roedd yn anoddach cael mynediad at swyddogion i drafod materion nad oeddent yn gwbl berthnasol i'r argyfwng wrth i swyddogion gael eu symud at dasgau eraill; ac roedd llai o fynediad at y gwrthbleidiau'n genedlaethol i drafod materion nad oeddent yn gwbl berthnasol i'r argyfwng.
- Roedd y berthynas ag awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill yn gymysg: lle'r oedd perthynas dda mewn partneriaeth o'r blaen, roedd cydweithio agos a di-oed; lle'r oedd y berthynas yn wael, roedd y gwrthwyneb yn wir, roedd rhai byrddau PSB a phartneriaethau rhanbarthol yn cwrdd yn amlach, eraill ddim o gwbl.
- Mae'r llywodraeth wedi bod yn awyddus i ymgysylltu â'r sector gwirfoddol fel bo angen, yn wahanol i'r sector gwirfoddol nid oedd ganddynt y profiad uniongyrchol na'r mynediad at atebion a gynigiwyd. Felly mae'r sector wedi dangos ei werth.
- Disgrifiodd un elusen ganser sut yr ystyrir ceisiadau polisi oedd o'r blaen ond yn ddyhead i fod yn hanfodol bellach; a rhwystrau a ystyriwyd yn anorchfygol bellach yn edrych yn bosib - p'un ai'n drafnidiaeth werdd neu'n weithredu cymunedol - fel bod angen i fudiadau ail-werthuso eu blaenoriaethau dylanwadu.
- Mae amserlen a phroses datblygu manifestos y pleidiau gwleidyddol yn aneglur o ran gallu dylanwadu arnynt, ac mae pryderon am yr amser sydd ei angen i ddylanwadu.
- Mae mudiadau gyda chylchoedd gwaith nad ydynt yn ffitio'n dwt i faes gwasanaeth cyhoeddus ac sy'n rhychwantu mwy nag un maes, e.e. gwaith Gofal a Thrwsio, yn cael trafferth dylanwadu ar y gwahanol broblemau sydd ganddynt os nad ydynt yn dod o dan 'seilos' gwasanaethau cyhoeddus.
- Roedd elusennau wedi cael mwy o lwyddiant lle'r oedd y gweithgareddau dylanwadu'n digwydd fel rhan o gynghrair. Dywedodd y rhai gyda seilwaith a rhwydweithiau sefydledig y cawsant fwy o lwyddiant na'r rhai sy'n newydd i'r arena dylanwadu.

- Dywedodd nifer o fudiadau fod ganddynt ddiffyg capasiti i ddylanwadu oherwydd bod eu staff ar ffyrlo neu wedi eu symud i wneud gwaith arall.
- Roedd y sector anabledau a phobl hŷn wedi gweld cam yn ôl yn y ffordd a ystyriwyd eu cymunedau, gyda sgysiau'n symud i ffwrdd o fodel cymdeithasol o drin pobl anabl a thuag at fodel meddygol.
- Mae symud at ddigidol / gweithio o bell wedi cael effaith gadarnhaol ar lawer, ond eto wedi eithrio lleisiau rhai ymhellach.

## **DYLANWADU AR BOLISI – SUT Y GALLAI HYN ARWAIN AT NEWID HIRDY MOR – CADARNHAOL A NEGYDDOL?**

Nid yw Covid-19, yn uniongyrchol, wedi newid y ffordd y gall y sector ddylanwadu ar bolisi, ond mae wedi newid blaenoriaethau ac arferion gweithredol sydd angen eu hadlewyrchu mewn polisi. Mae'r rhan greiddiol y chwaraeodd y sector wrth ymateb i'r argyfwng hefyd wedi cadarnhau ei rôl ganolog mewn darparu gwasanaethau llwyddiannus yng Nghymru.

O ran newid:

- Dywed llawer o fudiadau bod y ymateb y gymuned ddiwrnodau ac wythnosau ar y blaen i'r ymateb polisi. Roedd ymateb y gymuned yn aml yn fwy priodol ar lefel leol (o ran hyn, trafodwyd cynnwys bocsys bwyd, a awdurdodwyd gan bolisi traws-DU). Mae angen i ymateb y gymuned – sy'n aml yn or-leol a digyfansoddiad – fod yn gallu goleuo polisi.
- Mae gweithio ar y cyd i ddylanwadu ar bolisi'n gadarnhaol a dylai'r sector barhau i wneud hyn.
- Cyflwynwyd nifer o newidiadau polisi cadarnhaol o ganlyniad i Covid-19 sydd wedi bod yn fanteisiol. Mae angen i'r sector ddylanwadu er mwyn dal gafaél ar yr enillion hyn, e.e. y cynnydd o £20 mewn Credyd Cynhwysol.
- Daeth newidiadau hefyd mewn ymddygiad ehangach, o awyr iach i siopa'n lleol a gwneud mwy o ymarfer corff. Mae'r rhain i gyd wedi cyflwyno manteision cymdeithasol fydd yn ategu pwrpas llawer o fudiadau gwirfoddol; mae angen cynnal newidiadau da mewn ymddygiad.

Wedi dweud hynny, mae rhai pethau negyddol am y sefyllfa bresennol:

- Mae'r pandemig yn gorfodi'r llywodraeth i ail-ysgrifennu polisi a'r pleidiau gwleidyddol i ail-ysgrifennu eu manifestos. Mae hyn yn creu ansicrwydd i rai yn y sector sy'n ceisio darparu gwasanaethau a dylanwadu ar bolisi.
- Mae rhai mudiadau wedi buddsoddi adnoddau helaeth mewn ymgyrchoedd polisi i wella canlyniadau mewn cymunedau drwy Gymru ond nad ydynt wedi gallu cael effaith, neu a fydd efallai angen eu hail-wampio yn sgîl y newid mawr mewn darparu gwasanaethau fydd ei angen o ganlyniad i'r pandemig.

## **DYLANWADU AR BOLISI – BETH YW'R GOBLYGIADAU I'R SECTOR GWIRFODDOL YNG NGHYMRU?**

Yn y tymor byr, mae Covid-19 wedi cael effaith negyddol ar gapasiti'r sector gwirfoddol a gwneuthurwyr polisi i gyfrannu at weithgareddau dylanwadu. Mae arwyddion eisoes bod y capasiti hwn yn ehangu i gynnwys ymgysylltu mewn pynciau nad ydynt yn ymwneud â Covid-19. Fodd bynnag, tan fydd pethau'n newid, bydd Covid-19 yn gor-nodweddu llawer iawn o'r gwaith dylanwadu fydd yn digwydd yn yr arena polisi cyhoeddus.

Mae hyn yn cyflwyno her wirioneddol i ddylanwadu ar newid yn y tymor hir. Mae popeth yn symud yn anhygoel o gyflym a meddyliau pawb ar bethau'r funud. Nid yw'r sector gwirfoddol eisieu colli ei uchelgais o sicrhau newid ehangach a mwy hirdymor. Bydd manifestos gwleidyddol etholiadau 2021 yn rhai ar gyfer pum mlynedd o lywodraeth. Mae angen i ni ganfod sut i aildanio'r dychymyg gwleidyddol a'i droi at faterion ehangach nag ymateb y funud i'r pandemig.

Mae cyfle i ni ganfod ffyrdd newydd o weithio gyda'n gilydd ar draws ein sector i ateb y problemau mwy hirdymor a chanolbwyntio ar y math o heriau a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae polisiâu wedi eu haddasu a / neu eu creu'n gyflym i ymateb i anghenion taer argyfwng Covid-19; mae angen gwerthuso'r newidiadau hyn yn llawn i ddeall beth a weithiodd, a beth a ddylai gael ei ystyried fel mesur dros dro. Mae angen i'r gwerthusiad fod yn fwy na seilos gwasanaethau unigol; dylai edrych ar effaith ehangach y penderfyniadau polisi.

Rhaid i ni gydnabod bod y dyfodol yn ansicr o ran tonnau pellach o'r feirws a dod o hyd i frechiad; gan hynny, bydd angen i'r gwaith o lunio polisi a dylanwadu barhau i fod yn 'ystwyth'. Gallai llunio polisi ddychwelyd i ganolbwyntio'n llwyr ar faterion Coronafeirws. Byddai hyn ar draul datblygu llawer o'r sector gwirfoddol.

Mae hefyd yn hanfodol, un unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, sicrhau bod lleisiau defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu clywed wrth werthuso ac adolygu polisi. Nid oedd hyn bob tro'n bosib yng Ngwanwyn 2020 o ystyried bod angen ymateb ar fyrder i'r sefyllfa ond bellach mae canfod barn y bobl hyn yn hanfodol. Mae angen gwreiddio cyfranogi yn y ffyrdd newydd o ddatblygu polisi a dylanwadu yn y sector, gan gynnwys ar gyfer digidol.

Yn olaf, er mwyn dylanwadu'n effeithiol, rhaid i fudiadau gwirfoddol ddefnyddio tystiolaeth, gan gynnwys o effaith y sector ei hun. Gallai hyn fod yn bur anodd i fudiadau llai.

## **DYLANWADU AR BOLISI – BETH ALL MUDIADAU GWIRFODDOL, CGGC, Y LLYWODRAETH, NEU WNEUTHURWYR PENDERFYNIADAU ERAILL, EI WNEUD I'N TYWYS TUAG AT DDYFODOL GWELL?**

Daeth nifer o gamau gweithredu allan o'r sesiwn y gallai CGGC ac aelodau eu hystyried a'u gweithredu gyda rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod y sector yn y sefyllfa orau i ddylanwadu ar bolisi ar gyfer y dyfodol.

- ▶ Mae'n hanfodol deall hyd a lled y sector, a'r gwahanol lefelau o weithgareddau dylanwadu a gyflawnir gan fudiadau yn y sector.
- ▶ Mae angen i uwch-wneuthurwyr polisi fod yn ymwybodol o'r risgiau i ddatblygiad ehangach gwasanaethau os bydd datblygu polisi'n parhau i ganolbwyntio ar yr ymateb i Covid-19.
- ▶ Mae'n bwysig i ni ddeall manteision y modelau digidol o ymgysylltu a dylanwadu er mwyn gallu adeiladu arnynt, ond deall hefyd yr effeithiau negyddol sy'n eithrio rhai pobl.
- ▶ Mae angen i fudiadau gwirfoddol ddatblygu tystiolaeth gref i ddangos pam fod angen newid polisi, a thystiolaeth i ddangos eu heffaith eu hunain hefyd.

- ▶ Mae angen annog (a lle bo angen, cynorthwyo / ariannu) cyrff gwirfoddol i werthuso pa mor effeithiol yw newidiadau mewn darparu gwasanaeth, a sicrhau bod llais y defnyddiwr yn cael ei gynnwys yn y gwaith hwn.
- ▶ Mapio newidiadau cadarnhaol a negyddol mewn polisi – a datblygu llais neu leisiau cyfunol i gryfhau ein gallu i gadw'r cadarnhaol a dileu'r negyddol.
- ▶ Er mwyn cynorthwyo gwaith ar y cyd, mae angen mwy o fapio i asesu'r effaith gyfunol y mae'r sector wedi'i gael, cryfhau sefyllfa allweddol y sector mewn darparu gwasanaethau, a chyflwyno gwybodaeth i ddylanwadu ar bolisi.
- ▶ Mae angen i'r sector gwirfoddol gael eglurder a chyfathrebu gyda'r pleidiau gwleidyddol ar y broses a'r amserlen sy'n ymwneud â datblygu eu manifestos yn sgîl Covid-19.
- ▶ Er bod llawer o'r newidiadau a wnaed ar fyrder i bolisi a darparu gwasanaeth wedi canolbwyntio ar iechyd a'r amgylchedd gofal cymdeithasol, mae ganddynt oblygiadau ehangach ar draws meysydd fel cynaliadwyedd. Bydd hyn yn golygu traws-weithio gyda sefydliadau fel Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

**0300 111 0124**

[wcva.cymru](http://wcva.cymru)

Cyhoeddwyd Mehefin 2020

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Elusen gofrestredig rhif 218093

Cwmni cyfyngedig drwy warant 425299

Cofrestrwyd yng Nghymru